



Cyflwyniad

Bwriad y poster academiaidd yma yw dewis dau fodel damcaniaethol o addysgu trawsgwricwlaidd gan Barnes. Defnyddir dau fodel trawsgwricwlaidd addas ar gyfer dau weithgaredd o fewn thema dosbarth, sydd yn gysylltiedig â'r ddau fodel o dan sylw, a gellir addysgu yn y dosbarth. Bwriadir trafod gweithgareddau sydd yn cynnwys a datblygu llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd. Ceisir dadansoddi rhai manteision a chyfyngiadau'r ddau fodel enghreifftiol, a'i gefnogi â darllen pellach. Y thema dewisir felly i ysbrydoli'r modelau yw'r Ail Ryfel Byd. Bydd y thema yma'n addas ar gyfer dosbarthiadau Cyfnod Allweddol 2, ond trafodir gwersi a fydd yn anelu at ddosbarth ym mlwyddyn 5. Y rheswm dros ddewis thema fel yr Ail Ryfel Byd yw oblegid credir bydd y thema yma'n caniatáu datblygiad yn sawl maes dysgu a phrofiad a sicrhau gwersi trawsgwricwlaidd.

Beth yw addysg drawsgwricwlaidd?

Diffinia Hayes (2010) trawsgwricwlaidd fel cymysgedd o bynciau gwahanol a defnyddir ar gyfer thema benodol. Heblaw hynny, dywedir bod addysgu trawsgwricwlaidd yn rhyngddisgyblaethol o ganlyniad i'r defnydd o feysydd dysgu lluosol gan gysylltu'r pynciau gyda thema, problem neu brofiad. O ganlyniad, dywedir cysylltir gydag addysgu thematig. Yn ôl Barnes (2015, tud.62), gwelir dysgu trawsgwricwlaidd yn digwydd pryd defnyddir amrywiaeth o sgiliau a dealltwriaeth o wahanol ardaloedd a phrofiadau ar gyfer thema benodol, neu i ddatrys problem. Cyfaddefa Barnes gall addysgu a dysgu trawsgwricwlaidd bod yn aneffeithiol lle gall yr addysgu bod yn ddryslyd gyda dim ffocws penodol. Er hyn, dadleuir gall trawsgwricwlaidd sicrhau datblygiad yn eu sgiliau, datrys problemau, cymhelliad a diddordeb yn y dysgu. Dadleua Donaldson (2015, tud.28) bod angen i ddisgyblion "gadael yr ysgol â sgiliau llythrennedd a rhifedd cadarn, a gallu a hyder i ddefnyddio technoleg." Ymestynnir, dylid ffocysu ar ddatblygiad llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol fel cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd ar draws cwricwlwm newydd Cymru.

Yr Ail Ryfel Byd ac Addysgu Trawsgwricwlaidd



Y Wers Gyntaf

Amcan y wers gyntaf hoffir trafod yw i ysgrifennu sgript mewn grwpiau amdano fywyd fel faciws yn ystod yr Ail Ryfel Byd, ac yna ei berfformio gan ddefnyddio sgrin werdd. Caiff y wers yma ei ysbrydoli ar ôl ymweld â theatr i wylio sioe gan gwmni amdano'r Ail Ryfel Byd. Fe allwch chi weld yn syth caniateir y wers yma'r plant i ddatblygu eu sgiliau ar draws y cwricwlwm mewn sawl maes dysgu, megis drama, hanes, TGCh ac iaith. O ganlyniad, gwelir cymhwysedd digidol a llythrennedd fel cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd wrth iddyn nhw gefnogi perfformiad drama gydag elfen hanesyddol. Disgwylir yn gyntaf i'r plant gwneud ymchwil cefndirol am blant a faciws y cyfnod i dderbyn gwell dealltwriaeth o'r cyd-destun byddwn yn cynnwys yn y sgript, a hefyd y defnydd o bropiau a dillad o bosib. Yn ôl Llywodraeth Cymru (2008, tud.12), y sgil hanes datblyga'r plant bydd "adnabod gwahaniaethau rhwng ffyrdd o fyw mewn gwahanol gyfnodau." Ymhellach, nodir bod angen darparu cyfleoedd i'r plant defnyddio eu sgiliau TGCh i archwilio ac yna chyflwyno eu syniadau. Mae'r ffactor yma'n amlwg wrth i'r plant gwneud ymchwil ar gefndir faciws a'i gyflwyno ar ffurf perfformiad drama. O ran datblygiad drama, yn amlwg darpara'r wers cyfleoedd i ddatblygu sgiliau perfformio. Gwelir defnydd effeithiol o gymhwysedd digidol a llythrennedd fel cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd. Rhodda'r wers yma cyfle i'r plant datblygu sgil llafar o "archwilio dadleuon a themâu drwy chwarae rôl" (Llywodraeth Cymru, 2013). Datblygir sgil arall o lafaredd trwy gydweithio a chyflwyno syniadau gyda'i gilydd ac hefyd sgil ysgrifennu o ganlyniad i ysgrifennu sgript. Llafaredd yw'r sgil llythrennedd ffocysau'r plant arno fwyaf a chytuna Donaldson (2015, tud.40) gyda'r pwysigrwydd yma o roi cyfleoedd i'r plant i gyfathrebu, ymarfer eu hiaith a chyflwyno syniadau. Y sgil cymhwysedd digidol datblyga'r plant bydd i gasglu gwybodaeth a'i ddefnyddio gyda sain ac animeiddiad (Llywodraeth Cymru, 2016). Rhoddir y cyfrifoldeb arnom ni fel athrawon i gynnig profiadau i ymateb i'r amodau a welir yn ein cymdeithas dechnolegol (Poore, 2013, dyfynnwyd yn Kaye, 2017, tud.4). Dangosa Kaye (2017, tud.10) yr un farn gan nodi bod cymhwysedd digidol yn cymhell plant i ymgysylltu â gwahanol ardaloedd dysgu ar draws y cwricwlwm, a dyna beth alluoga'r wers yma i wneud, wrth ddefnyddio'r sgrin werdd i ddatblygu sgiliau a dealltwriaeth hanes.

Model Rhyng-ddisgyblaethol

Y fodel trawsgwricwlaidd sydd yn cysylltu gyda'r wers yma yw Rhyng-ddisgyblaethol. Mae hyn o ganlyniad i'r sioe yn sefyll fel profiad cyfrannol, sydd yn ysbrydoli'r plant i wneud cyflwyniad lle datblygir sgiliau o ddau bwnc (Barnes, 2015, tud.73). Yn y sefyllfa yma, y ddau bwnc datblygir bydd hanes a drama. Er gellir nodi'r ymglymiad o lythrennedd a chymhwysedd digidol, ond cefnogir y sgiliau hanes a drama yn hytrach na sefyll fel y prif amcanion dysgu. Un nodwedd sydd yn gysylltiedig gyda'r model yw'r perfformiadau bydd y disgyblion yn creu yn eu grwpiau. Wrth ddefnyddio'r model yma, dadleua Barnes y dylai plant cydweithio a rhannu eu syniadau trwy ryw fath o gyflwyniad megis perfformiad, ac ychwanegir dylai'r model yma hybu meddwl creadigol. Cytuna Rowley a Cooper (2009, tud.112) gan nodi bod perfformiad hanesyddol yn helpu plant i fod yn ddychmygus a chreadigol. Rhanna Estyn (2017a) yr un farn gan awgrymu bod angen cyflwyno'r dyniaethau mewn ffordd ddiddorol ac unigryw. Elfennau effeithiol arall o'r wers yw'r ymweliad i weld sioe ar gyfer y profiad cyfrannol, lle cytuna Barnes fod profiad fel drama yn gallu ysbrydoli'r gweithgareddau a ddilyniir.

Un fantais y model Rhyng-ddisgyblaethol yn ôl Barnes yw ei fod yn sicrhau creadigrwydd. Nodir bod y model yma nid yn unig yn hybu gwaith creadigol oddi wrth y plant, ond yn ychwanegol, yn helpu athrawon i addysgu'n greadigol. Er hyn, cyfaddefa Barnes (2015, tud.74) gall rhai heriau codi wrth ddefnyddio'r model yma megis y pwysigrwydd i'r athro/awes bod yn hyderus yn addysgu pob maes dysgu a chodir yn y wers er mwyn addysgu'r wers yn greadigol, i sicrhau datblygiad mwyafswm y disgyblion. Fodd bynnag, dyweda Barnes os mai gan yr athro/awes y ddealltwriaeth iawn ymhob pwnc a chodir yn y wers, yn ogystal a gosod heriau, ni fydd rheswm i'r model yma bod yn aflwyddiannus.



Yr Ail Wers

Yr amcan yw i 'brynu' a 'gwerthu' eitemau a oedd ar gael yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Yn gyntaf rhannir pawb mewn i grwpiau ac yna rhoddir cyfle i'r plant ymchwilio i'r fath o eitemau o'r cyfnod y gellir prynu a gwerthu. Esbonnir i'r plant byddwn yn troi'r dosbarth mewn i ryw fath o farchnad a bydd gan bob grŵp stondin eu hun. Penderfyniad y grwpiau yw i ddewis ba eitemau maent nhw eisiau gwerthu a pha bris hefyd. Rhoddir yr un mwyafswm o gyllideb i bob grŵp a'i phenderfyniad nhw fydd hi o sut i wario'r arian. Y grŵp a wneir yr elw mwyaf, gan roi ystyried i'r nifer o eitemau prynwyd, bydd y grŵp buddugol. Gwelir effeithiolrwydd y wers yma o ganlyniad i Lywodraeth Cymru (2008, tud.8) yn awgrymu y dylid addysgu plant am hanes diwylliannol ac economaidd Cymru, yn ogystal â pharatoi plant am y cyfleoedd gwahanol ar gyfer gyrfa. Gwelir defnydd effeithiol o fathemateg/rhifedd o ganlyniad i Haylock a Thangata (2007, tud.48) yn nodi y dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion defnyddio mathemateg mewn cyd-destunau pwrpasol lle gellir defnyddio sgiliau a dealltwriaeth flaenorol i ddatrys problemau. Gellir Estyn (2017b, tud.5) cytuno gyda'r wers oblegid awgrymir dylid "darparu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso'u medrau ariannol ar draws y cwricwlwm." Eto, y sgil hanes datblyga'r plant yw'r sgil i gymharu nodweddion sydd yn deillio o gyfnodau gwahanol. Mynega Llywodraeth Cymru (2013) taw'r sgiliau rhifedd datblygir yn y wers yw'r cysylltiad o ddefnyddio sgiliau mathemateg gyda sefyllfaoedd gwir, a sgiliau rheoli arian. Mae'r sgiliau yma'n hollol amlwg oblegid bydd y plant yn defnyddio sgiliau mathemategol i gyfrifo newid, elw a'r swm o arian bydden nhw'n gwario. Datblygir sgiliau llafar eto a dyweda Llywodraeth Cymru (2013), bydd y disgyblion yn datblygu sgil o "esbonio gwybodaeth a syniadau, archwilio a defnyddio ffyrdd o argyhoeddi". Yn fwy, bydd y plant yn datblygu peth o'u sgiliau TGCh/cymhwysedd digidol o ganlyniad iddyn nhw wneud peth ymchwil yn gyntaf.

Model Pwnc Unigol Trosglwyddadwy

Pwnc Unigol Trosglwyddadwy yw'r model trawsgwricwlaidd mwyaf addas ar gyfer y wers yma. Deillia hyn o'r pwnc o dan sylw, sef rhifedd/mathemateg, yn cysylltu â phynciau eraill ar draws y cwricwlwm (Barnes, 2015, tud.68). Dyweda Barnes fod y model penodol yma fel arfer yn ceisio datblygu iaith neu fathemateg fel y pwnc unigol. Yn fwy, pwysleisir bod angen ffocysu ar y pwnc o dan sylw yn lle ceisio hybu profiadau. Mynega Barnes y gellir cynllunio gwersi ffocysu ar faes dysgu penodol, ond gellir arwain at ddatblygiad mewn meysydd eraill ar draws y cwricwlwm. Cytuna Pound a Lee (2011, tud.86) gan ychwanegu bod addysgu mathemateg yn drawsgwricwlaidd yn galluogi darparu cyfleoedd lle welir mathemateg yn bwrpasol gyda'r plant yn derbyn gwell synnwyr. Cysyllta'r wers yma gyda'r model Pwnc Unigol Trosglwyddadwy yn effeithiol, o ganlyniad i'r prif ffocws yw datblygu sgiliau rhifedd, ond rhoddir cyfleoedd i ddatblygu sgiliau hanes a llythrennedd, a pheth cymhwysedd digidol. Gwelir Rowley a Cooper (2009, tud.5) yn gweld effeithiolrwydd o gynnwys hanes mewn gwers drawsgwricwlaidd oblegid credir ei fod yn cysylltu gyda meysydd arall yn naturiol pryd addysgir thema dyniaethau, a hefyd oherwydd cysylltir gyda phob rhan o'r gymdeithas. Ychwanega Rowley a Cooper taw llythrennedd yw'r man cychwyn ymhob gwers drawsgwricwlaidd oherwydd datblygir sgiliau llythrennedd yn naturiol pob dydd. Dengys Donaldson (2015, tud.40) yr un cymhelliant o gynnwys llythrennedd fel cyfrifoldeb trawsgwricwlaidd oherwydd gwelir llythrennedd, yn enwedig iaith a llafar, yn codi ymhob pwnc.

Casgliad

Felly o'r cynnwys, cyflwynir dau weithgaredd yn seiliedig ar y thema, Yr Ail Ryfel Byd, i gefnogi dau fodel damcaniaethol o addysgu trawsgwricwlaidd gan Barnes. Gall un dadlau'n gryf bod y gwersi wedi ateb gofynion y ddau fodel gwahanol, gan ddatblygu sgiliau'r tri chyfrifoldeb trawsgwricwlaidd hefyd. Mae'r gwersi yma'n sicrhau dysgu ar draws y cwricwlwm, gan ffocysu'n bennaf ar hanes, drama, rhifedd, llythrennedd a chymhwysedd digidol.